*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 11(6)(c) o Fesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

---

# 2025 Rhif (Cy. )

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

# Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2025

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 (O.S. 2011/704 (Cy. 108)) ("y Prif Reoliadau").

Mae rheoliad 4 yn diwygio rheoliad 2 o'r Prif Reoliadau (dehongli), gan fewnosod diffiniadau newydd yn y ddarpariaeth honno.

Mae rheoliad 5 yn diwygio rheoliad 3 o'r Prif Reoliadau (egwyddorion cyffredinol ar gyfer trin ac ymchwilio i bryderon), er mwyn cynnwys darpariaeth i berson sy'n hysbysu pryder gael gwybod yn rheolaidd am gynnydd ac amserlenni, a darpariaeth ynghylch gofynion cyfathrebu.

Mae rheoliad 6 yn diwygio rheoliad 11 o'r Prif Reoliadau (hysbysu pryderon) er mwyn dileu croesgyfeiriad at ddarpariaeth a hepgorir gan y Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 7 yn diwygio rheoliad 14 o'r Prif Reoliadau (materion a phryderon a eithrir rhag eu hystyried o dan y trefniadau) i ychwanegu eithriad rhag cwmpas y Prif Reoliadau pan fo'r corff cyfrifol yn ystyried bod y pryder yn flinderus neu'n wacsaw, ac i ddarparu bod pryderon a ddatrysir drwy'r weithdrefn datrys yn gynnar wedi eu heithrio rhag cwmpas rheoliadau penodedig.

Mae rheoliad 8 yn diwygio rheoliad 17 o’r Prif Reoliadau (pryderon sy’n ymwneud â mwy nag un corff cyfrifol) i ddiwygio’r amserlenni ar gyfer ceisio cydsyniad, gan berson sy’n hysbysu pryder, i hysbysu’r cyrff cyfrifol eraill sy’n gysylltiedig, a’r amserlen ar gyfer rhoi’r hysbysiad hwnnw.

Mae rheoliadau 9 a 10 yn diwygio rheoliadau 19 (camau sydd i’w cymryd pan hysbysir pryder i Fwrdd Iechyd Lleol ynghylch gwasanaethau a ddarperir gan ddarparwr gofal sylfaenol) ac 20 (camau sydd i’w cymryd pan hysbysir pryder i Fwrdd Iechyd Lleol gan ddarparwr gofal sylfaenol) o’r Prif Reoliadau, yn y drefn honno. Mae’r diwygiadau yn pennu o dan ba amgylchiadau y mae darparwyr gofal sylfaenol, ac nid y Bwrdd Iechyd Lleol, i geisio datrys pryder drwy’r weithdrefn datrys yn gynnar.

Mae rheoliad 11 yn diwygio rheoliad 22 o’r Prif Reoliadau (y weithdrefn cyn ymchwilio) i ychwanegu materion pellach i’r corff cyfrifol gynnig eu trafod â’r person sy’n hysbysu’r pryder, a gofynion pellach pan fo trafodaeth o’r fath yn digwydd, gan gynnwys gofyniad i gadw cofnodion o gynigion i drafod o dan y ddarpariaeth honno.

Mae rheoliad 12 yn mewnosod rheoliad 22A yn y Prif Reoliadau, sy’n gwneud darpariaeth ynghylch y cyfnod datrys yn gynnar a’r weithdrefn datrys yn gynnar.

Mae rheoliad 13 yn mewnosod rheoliad 24A yn y Prif Reoliadau, sy’n gwneud darpariaeth i alluogi atal dros dro y weithdrefn datrys yn gynnar neu ymchwiliad wrth aros am ganlyniad ymholiad diogelu, ymchwiliad troseddol neu achos troseddol.

Mae rheoliad 14 yn diwygio rheoliad 26 o’r Prif Reoliadau (ymateb i ymchwiliad o dan reoliad 23 pan benderfynir bod, neu y gall fod, atebolrwydd cymwys) i ddiwygio’r amserlenni ar gyfer darparu adroddiad interim, ac adroddiad ar ymchwiliad o dan reoliad 31.

Mae rheoliad 15 yn diwygio rheoliad 29 o’r Prif Reoliadau (iawn – digollediad ariannol) i gynyddu’r terfyn ar gyfer yr elfen o ddigolllediad ariannol yn yr iawn at ddibenion Rhan 6.

Mae rheoliad 16 yn diwygio rheoliad 31 o’r Prif Reoliadau (adroddiad yr ymchwiliad) i gynnwys gofyniad i gorff GIG Cymru (fel y’i diffinnir yn rheoliad 2(1) o’r Prif Reoliadau) gynnig trafod adroddiad ar ymchwiliad, pan fo’r corff wedi darparu adroddiad, at ddibenion Rhan 6.

Mae rheoliad 17 yn diwygio rheoliad 33 o’r Prif Reoliadau (iawn – hysbysu ynghylch penderfyniad), i leihau’r amserlen y mae rhaid i gorff GIG Cymru hysbysu ynghylch penderfyniad oddi mewn iddi at ddibenion Rhan 6.

Mae rheoliad 18 yn diwygio rheoliad 40 o'r Prif Reoliadau (ymateb i ymchwiliad o dan reoliad 39 pan fo corff GIG Cymru o'r farn bod, neu y gall fod, atebolrwydd cymwys) i ddiwygio'r amserlenni ar gyfer darparu adroddiad interim, ac adroddiad ar ymchwiliad o dan reoliad 46.

Mae rheoliad 19 yn diwygio rheoliad 44 o'r Prif Reoliadau (iawn – digollediad ariannol) i gynyddu'r terfyn ar gyfer yr elfen o ddigollediad ariannol yn yr iawn at ddibenion Rhan 7.

Mae rheoliad 20 yn diwygio rheoliad 46 o'r Prif Reoliadau (adroddiad yr ymchwiliad) i gynnwys gofyniad i gorff GIG Cymru gynnig trafod adroddiad ar ymchwiliad, pan fo'r corff wedi darparu adroddiad, at ddibenion Rhan 7.

Mae rheoliad 21 yn diwygio rheoliad 48 o'r Prif Reoliadau (iawn – hysbysu ynghylch penderfyniad) i leihau'r amserlen y mae rhaid i gorff GIG Cymru hysbysu ynghylch penderfyniad oddi mewn iddi at ddibenion Rhan 7.

Mae rheoliad 22 yn diwygio rheoliad 50 o'r Prif Reoliadau (monitro gweithrediad y trefniadau i ymdrin â phryderon) i ychwanegu gofynion newydd o ran cadw cofnodion ynghylch a wnaed cynnig o iawn, ac unrhyw benderfyniad nad oes angen cyngor meddygol annibynnol mewn perthynas â phryderon sy'n ymwneud â marwolaeth claf, neu niwed cymedrol neu ddifrifol iddo.

Mae rheoliad 23 yn diwygio rheoliad 51 o'r Prif Reoliadau (yr adroddiad blynyddol) i'w gwneud yn ofynnol i Fwrdd Iechyd Lleol gynnwys adroddiadau blynyddol cyrff cyfrifol yn ei adroddiad blynyddol ei hun o dan amgylchiadau penodedig.

Mae rheoliad 24 yn cynnwys darpariaeth drosiannol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar y wefan ar https://www.llyw.cymru.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 11(6)(c) o Fesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U D R A F F T

---

# 2025 Rhif (Cy. )

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan: adrannau 113(2), (3), 115(1), (2), (5), (6), a 195(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003(**1**); adrannau 1(1) i (4)(a), (5), (6), 2(1), (2), (4), (5), (6)(a), 3(1), (2)(b) i (d), 4(1), (2)(a), 5, 9(1) i (5), (7) ac 11(2), (3) o Fesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008(**2**).

---

(**1**) 2003 p. 43. Mewnosodwyd adran 113(2)(d) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 ("Deddf 2003") gan adran 10 o Fesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008 (mccc 1). Diddymwyd adran 113(3)(b) o Ddeddf 2003 gan y darpariaethau a ganlyn o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14): adran 95 a pharagraff 45 o Atodlen 5; adran 166 a Rhan 1 o Atodlen 15. *Gweler* adran 148 o Ddeddf 2003 am y diffiniadau o "NHS body" a "Welsh NHS body", ac adran 194 am y diffiniad o "the Assembly". Diwygiwyd adran 115(1) o Ddeddf 2003 gan reoliad 206 o O.S. 2016/413 (Cy. 131). Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) 2008 mccc 1.

Gosodwyd drafft o’r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe’i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad yn unol ag adran 11(6)(c) o Fesur Gwneud Iawn am Gamweddau’r GIG (Cymru) 2008(**1**).

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw’r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2025.

(2) Daw’r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2026.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr “y Prif Reoliadau” yw Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011(**2**).

(2) Oni nodir yn wahanol yn y Rheoliadau hyn, mae i ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn yr un ystyr ag a roddir yn y Prif Reoliadau.

### Diwygio’r Prif Reoliadau

**3.** Mae’r Prif Reoliadau wedi eu diwygio fel y nodir yn rheoliadau 4 i 23.

### Diwygio rheoliad 2

**4.** Yn rheoliad 2(1) (dehongli), yn y lleoedd priodol mewnosoder—

> “ystyr “cyfathrebu uniongyrchol” (“*in-person communication*”) yw cyfathrebu sy’n digwydd drwy alwad ffôn, drwy gyfathrebu clyweledol neu drwy gyfarfod wyneb yn wyneb;”;
>
> “ystyr “cyfnod datrys yn gynnar” (“*early resolution period*”) yw cyfnod nad yw’n hwy na 10 niwrnod gwaith sy’n dechrau â’r diwrnod y cydnabu’r corff cyfrifol ei fod wedi cael yr hysbysiad o’r pryder;”;

---

(**1**) *Gweler* hefyd adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) am ddarpariaeth ynghylch y weithdrefn sy’n gymwys i’r offeryn hwn. Mae’r cyfeiriad yn adran 11(6) o Fesur Gwneud Iawn am Gamweddau’r GIG (Cymru) 2008 at “the National Assembly for Wales” bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae’r cyfeiriad at y naill Dŷ Senedd neu'r llall yn adran 195(6) o Ddeddf 2003 i’w ddarllen fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adrannau 150A(2) a 162(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 34(1) a (2) o Atodlen 11 iddi.

(**2**) O.S. 2011/704 (Cy. 108), a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/1706 (Cy. 192), O.S. 2013/235, O.S. 2022/634, O.S. 2023/274 (Cy. 41), O.S. 2023/281 (Cy. 42), O.S. 2023/1053 (Cy. 179) ac O.S. 2023/1071.

"ystyr "gweithdrefn datrys yn gynnar" ("*early resolution procedure*") yw'r camau y mae'n ofynnol i gorff cyfrifol eu cymryd yn unol â rheoliad 22A i geisio datrys y pryder er boddhad y person a hysbysodd y pryder heb symud ymlaen i ymchwiliad o dan reoliad 23;".

**Diwygio rheoliad 3**

**5.**—(1) Mae rheoliad 3(1) (egwyddorion cyffredinol ar gyfer trin ac ymchwilio i bryderon) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl is-baragraff (f) mewnosoder—

"(fa) bod personau sy'n hysbysu pryderon yn cael gwybod yn rheolaidd am gynnydd yr ymchwiliad mewn perthynas â'r pryder a'r amserlen debygol ar gyfer cwblhau'r ymchwiliad hwnnw;".

(3) Ar ôl is-baragraff (g) hepgorer "ac" a mewnosoder—

"(ga) bod unrhyw gyfathrebu â phersonau sy'n hysbysu pryderon—

(i) i'r graddau y bo'n rhesymol bosibl, yn cael ei ddarparu mewn modd y gall y person a hysbysodd y pryder ei ddeall;

(ii) pan fo'n briodol, yn darparu esboniad o dermau cyfreithiol neu dermau meddygol;

(iii) i'r graddau y bo'n rhesymol bosibl, yn cael ei ddarparu yn y modd y mae'r person a hysbysodd y pryder wedi gofyn amdano; ac".

**Diwygio rheoliad 11**

**6.** Ar ddechrau rheoliad 11(2) (hysbysu pryderon), yn lle "Yn ddarostyngedig i reoliad 14(1)(dd) pan" rhodder "Pan".

**Diwygio rheoliad 14**

**7.**—(1) Mae rheoliad 14 (materion a phryderon a eithrir rhag eu hystyried o dan y trefniadau) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1)—

(a) hepgorer is-baragraff (dd);

(b) yn is-baragraff (e), yn lle "ag is-baragraff (dd)" rhodder "â pharagraff (5)";

(c) ar ôl is-baragraff (f) mewnosoder—

“(fa) pryder y mae’r corff cyfrifol o’r farn ei fod yn flinderus neu’n wacsaw;”.

(3) Ar ddechrau paragraff (2), yn lle “Yn ddarostyngedig i baragraff (3), pan” rhodder “Pan”.

(4) Hepgorer paragraff (3).

(5) Ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

“(5) Mae pryder a ddatrysir yn ystod y cyfnod datrys yn gynnar yn unol â’r weithdrefn datrys yn gynnar wedi ei eithrio o briod faes y trefniadau sy’n ofynnol o dan reoliadau 23 i 48. ”

**Diwygio rheoliad 17**

**8.** Mae rheoliad 17(2) (pryderon sy’n ymwneud â mwy nag un corff cyfrifol) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) yn is-baragraff (a), yn lle’r geiriau o “o fewn dau” hyd at “o bryder, gofyn” rhodder “ddim hwyrach na phum niwrnod gwaith ar ôl y diwrnod y mae’n cael hysbysiad o’r pryder, ofyn”;

(b) yn is-baragraff (b), yn lle “o fewn dau ddiwrnod gwaith ar ôl cael” rhodder “ddim hwyrach na dau ddiwrnod gwaith ar ôl y diwrnod y mae’n cael”.

**Diwygio rheoliad 19**

**9.**—(1) Mae rheoliad 19 (camau sydd i’w cymryd pan hysbysir pryder i Fwrdd Iechyd Lleol ynghylch gwasanaethau a ddarperir gan ddarparwr gofal sylfaenol) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ddechrau paragraff (1), yn lle “Pan fo” rhodder “Yn ddarostyngedig i baragraff (5), pan fo”.

(3) Ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

“(5) Os yw’r person sy’n hysbysu’r pryder wedi rhoi caniatâd i’r corff cyfrifol geisio datrys y pryder yn ystod y cyfnod datrys yn gynnar yn unol â rheoliad 22A, y darparwr gofal sylfaenol, ac nid y Bwrdd Iechyd Lleol, yw’r corff cyfrifol y mae rhaid iddo geisio datrys y pryder yn ystod y cyfnod datrys yn gynnar, oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn gymwys.”

**Diwygio rheoliad 20**

**10.**—(1) Mae rheoliad 20 (camau sydd i’w cymryd pan hysbysir pryder i Fwrdd Iechyd Lleol gan ddarparwr gofal sylfaenol) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ddechrau paragraff (1), yn lle “Pan fo” rhodder “Yn ddarostyngedig i baragraff (5), pan fo”.

(3) Ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

“(5) Os yw’r person sy’n hysbysu’r pryder wedi rhoi caniatâd i’r corff cyfrifol geisio datrys y pryder yn ystod y cyfnod datrys yn gynnar yn unol â rheoliad 22A, y darparwr gofal sylfaenol, ac nid y Bwrdd Iechyd Lleol, yw’r corff cyfrifol y mae rhaid iddo geisio datrys y pryder yn ystod y cyfnod datrys yn gynnar, oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn gymwys.”

**Diwygio rheoliad 22**

**11.**—(1) Mae rheoliad 22 (y weithdrefn cyn ymchwilio) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1), hepgorer “14(1)(dd) neu”.

(3) Ar ddiwedd paragraff (4)(c)(ii), hepgorer yr atalnod llawn a mewnosoder—

“;

(ch) y datrysiad neu’r canlyniad y mae’n dymuno ei gael mewn perthynas â’r pryder y mae wedi ei hysbysu;

(d) ei ddealltwriaeth o ffeithiau ac amgylchiadau’r pryder y mae wedi ei hysbysu, a’i safbwynt arnynt;

(dd) y dull cyfathrebu a ffefrir gan y person ac a oes ganddo unrhyw ofynion cyfathrebu penodol;

(e) ac eithrio pan fo ymchwiliad o dan reoliad 23 wedi dechrau mewn perthynas â’r pryder, y weithdrefn datrys yn gynnar, gan gynnwys—

(i) a yw’r corff cyfrifol o’r farn bod y weithdrefn datrys yn gynnar yn briodol o dan yr amgylchiadau, a

(ii) os yw’r corff cyfrifol o’r farn nad yw’r weithdrefn datrys yn gynnar yn briodol (er enghraifft oherwydd cymhlethdod neu ddifrifoldeb), y rheswm dros hyn;

(f) mai dim ond pan gynhelir ymchwiliad o dan reoliad 23 y gall asesiad ddigwydd ynghylch a oes atebolrwydd cymwys yn bodoli mewn perthynas â’r pryder a hysbyswyd;

(ff) pan fo’r corff cyfrifol o’r farn bod y cyfnod datrys yn gynnar yn briodol o dan yr amgylchiadau, a yw’r person a hysbysodd y pryder yn rhoi caniatâd i’r corff cyfrifol geisio datrys y pryder yn unol â’r weithdrefn datrys yn gynnar.”

(4) Ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

“(4A) Pan fo’r person a hysbysodd y pryder yn derbyn y cynnig o drafodaeth o dan baragraff

(4), rhaid i drafodaeth o'r fath fod drwy ddull cyfathrebu uniongyrchol.

(4B) Pan fo'r corff cyfrifol yn cael ei hysbysu bod angen unrhyw wasanaethau a grybwyllir ym mharagraff (4)(b) ar y person a hysbysodd y pryder, pan fydd yn trefnu trafodaeth o dan baragraff (4), rhaid i'r corff cyfrifol ystyried yr angen i sicrhau bod gwasanaethau o'r fath yn cael eu darparu yn y drafodaeth honno.

(4C) Rhaid i'r corff cyfrifol gadw cofnod o'r canlynol—

(a) pa un a yw'r cynnig o drafodaeth o dan baragraff (4) yn cael ei dderbyn ai peidio, a

(b) os yw'r cynnig yn cael ei dderbyn, y materion a drafodwyd."

**Mewnosod rheoliad 22A**

**12.** Ar ôl rheoliad 22 (y weithdrefn cyn ymchwilio) mewnosoder—

**"Y cyfnod datrys yn gynnar a'r weithdrefn datrys yn gynnar**

**22A.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys—

(a) pan fo person sydd wedi hysbysu pryder wedi rhoi caniatâd (yn ystod trafodaeth o dan reoliad 22(4) neu o dan baragraff (2)) i'r corff cyfrifol geisio datrys y pryder yn ystod y cyfnod datrys yn gynnar yn unol â'r weithdrefn datrys yn gynnar a bennir yn y rheoliad hwn, a

(b) pan fo'r corff cyfrifol o'r farn bod y weithdrefn datrys yn gynnar yn briodol o dan yr amgylchiadau.

(2) Pan na fo trafodaeth o dan reoliad 22(4) wedi digwydd, rhaid i'r corff cyfrifol geisio cadarnhad gan y person a hysbysodd y pryder o ran a yw'n rhoi caniatâd i'r corff cyfrifol geisio datrys y pryder yn ystod y cyfnod datrys yn gynnar cyn cymryd unrhyw gamau o dan baragraff (3).

(3) Rhaid i'r corff cyfrifol gymryd unrhyw gamau y mae o'r farn eu bod yn briodol i geisio datrys y pryder er boddhad y person a hysbysodd y pryder yn ystod y cyfnod datrys yn gynnar cyn symud ymlaen i gynnal ymchwiliad o dan reoliad 23.

(4) Pan fo'r corff cyfrifol wedi ceisio datrys y pryder yn ystod y cyfnod datrys yn gynnar, rhaid i'r corff cyfrifol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl—

(a) ceisio cadarnhad gan y person a hysbysodd y pryder o ran pa un a yw'r pryder wedi ei ddatrys er ei foddhad ai peidio yn ystod y cyfnod datrys yn gynnar;

(b) pan fo'r person a hysbysodd y pryder yn cadarnhau bod y pryder wedi ei ddatrys er ei foddhad, ddarparu cadarnhad ysgrifenedig i'r person a hysbysodd y pryder fod y weithdrefn datrys yn gynnar wedi dod i ben ac na fydd ymchwiliad i'r pryder yn cael ei gynnal o dan reoliad 23;

(c) pan fo'r person a hysbysodd y pryder yn cadarnhau nad yw'r pryder wedi ei ddatrys er ei foddhad—

(i) dechrau ymchwilio i'r pryder o dan reoliad 23, a

(ii) darparu cadarnhad ysgrifenedig i'r person i'r perwyl hwnnw;

(ch) pan na fo'r person a hysbysodd y pryder yn darparu cadarnhad o dan is-baragraff (a), a phan fo'r corff cyfrifol wedi cymryd pob cam rhesymol i gyfathrebu â'r person hwnnw at y diben hwnnw—

(i) os yw'r corff cyfrifol o'r farn bod y pryder wedi ei ddatrys yn ystod y cyfnod datrys yn gynnar, ddarparu cadarnhad ysgrifenedig yn unol ag is-baragraff (b), neu

(ii) os yw'r corff cyfrifol o'r farn nad yw'r pryder wedi ei ddatrys yn ystod y cyfnod datrys yn gynnar, gymryd y camau a bennir yn is-baragraff (c)(i) a (ii);

(d) cadw cofnod o ganlyniad y weithdrefn datrys yn gynnar."

**Mewnosod rheoliad 24A**

**13.** Ar ôl rheoliad 24 (ymateb) mewnosoder—

"**Atal dros dro y weithdrefn datrys yn gynnar neu ymchwiliad**

**24A.**—(1) Pan fo'r corff cyfrifol yn dod yn ymwybodol o ymholiad diogelu, ymchwiliad troseddol neu achos troseddol mewn perthynas â mater sy'n destun pryder a hysbyswyd i'r corff cyfrifol, caiff y corff cyfrifol atal dros dro y weithdrefn datrys yn gynnar neu ymchwiliad o dan y Rheoliadau hyn, mewn perthynas â'r pryder.

(2) Caiff ataliad dros dro o dan baragraff (1) fod am unrhyw gyfnod y mae'r corff cyfrifol o'r farn ei fod yn angenrheidiol er mwyn caniatáu i unrhyw ymholiad diogelu neu ymchwiliad troseddol gael ei gwblhau, neu i unrhyw achos troseddol gael ei benderfynu.

(3) Wrth bennu'r cyfnod o dan baragraff (2), rhaid i'r corff cyfrifol roi sylw—

(a) i unrhyw geisiadau gan y personau hynny sy'n gyfrifol am gynnal yr ymholiad diogelu, yr ymchwiliad troseddol neu'r achos troseddol i atal dros dro y weithdrefn datrys yn gynnar neu ymchwiliad o dan y Rheoliadau hyn, neu

(b) i unrhyw ganiatâd a ddarperir gan y personau hynny sy'n gyfrifol am gynnal yr ymholiad diogelu, yr ymchwiliad troseddol neu'r achos troseddol i fwrw ymlaen â'r weithdrefn datrys yn gynnar neu ag ymchwiliad o dan y Rheoliadau hyn.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (6), pan fo'r corff cyfrifol wedi atal dros dro y weithdrefn datrys yn gynnar neu ymchwiliad o dan baragraff (1), rhaid i'r corff cyfrifol roi hysbysiad mewn ysgrifen i'r person a hysbysodd y pryder fod y weithdrefn datrys yn gynnar neu'r ymchwiliad i'r pryder wedi ei hatal dros dro neu ei atal dros dro, wrth aros i ymholiad diogelu neu ymchwiliad troseddol gael ei gwblhau, neu i achos troseddol gael ei benderfynu, yn ôl y digwydd.

(5) Rhaid rhoi hysbysiad o dan baragraff (4) ddim hwyrach na dau ddiwrnod gwaith ar ôl y diwrnod y mae'r corff cyfrifol yn dod yn ymwybodol o'r ymholiad diogelu, yr ymchwiliad troseddol neu'r achos troseddol.

(6) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn caniatáu, nac yn ei gwneud yn ofynnol, i gorff cyfrifol ddatgelu unrhyw wybodaeth—

(a) a fyddai'n rhagfarnu unrhyw ymchwiliad troseddol, unrhyw achos troseddol neu unrhyw erlyniad troseddol, neu

(b) a fyddai'n mynd yn groes i unrhyw gyfyngiad ar ddatgelu sy'n codi yn rhinwedd deddfiad neu reol gyfreithiol.

(7) Yn y rheoliad hwn, ystyr "ymholiad diogelu" yw proses yr ymgymerir â hi gan awdurdod lleol er mwyn galluogi'r awdurdod lleol i benderfynu—

(a) a ddylai unrhyw gamau gael eu cymryd ac, os felly, pa rai a chan bwy, mewn

perthynas ag oedolyn sy’n wynebu risg o dan adran 126 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**);

(b) a ddylai gymryd unrhyw gamau er mwyn diogelu neu hyrwyddo lles plentyn o dan adran 47 o Ddeddf Plant 1989(**2**).”

**Diwygio rheoliad 26**

**14.**—(1) Mae rheoliad 26 (ymateb i ymchwiliad o dan reoliad 23 pan benderfynir bod, neu y gall fod, atebolrwydd cymwys) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (3)(b), yn lle “chwe mis” rhodder “120 o ddiwrnodau gwaith”.

(3) Ym mharagraff (4), yn lle “chwe mis” rhodder “120 o ddiwrnodau gwaith”.

(4) Ym mharagraff (5), yn lle “deuddeng mis” rhodder “120 o ddiwrnodau gwaith”.

(5) Ym mharagraff (6), yn lle “ddeuddeng mis” rhodder “120 o ddiwrnodau gwaith”.

(6) Ar ôl paragraff (6) mewnosoder—

“(7) Caiff y corff GIG Cymru ddarparu adroddiad interim ar yr un pryd ag adroddiad ar ymchwiliad y cyfeirir ato yn rheoliad 31 pan fo adroddiad yr ymchwiliad yn barod i gael ei ddarparu i’r person a hysbysodd y pryder cyn i’r adroddiad interim gael ei ddarparu.

(8) Pan fo’r adroddiad interim ac adroddiad yr ymchwiliad yn cael eu darparu ar yr un pryd—

(a) nid yw’n ofynnol i’r corff GIG Cymru ddarparu’r wybodaeth ym mharagraff (1)(c) ac (f), a

(b) mae paragraff (1)(e) i’w ddarllen fel pe bai’r geiriau “a ddilynwyd” wedi eu rhoi yn lle “a ddilynir”.”

---

(**1**) 2014 dccc 4. *Gweler* adran 126(1) am y diffiniad o “oedolyn sy’n wynebu risg”.

(**2**) 1989 p. 41. Diwygiwyd adran 47 gan y deddfiadau a ganlyn: Deddf Awdurdodau Iechyd 1995 (p. 17) (adran 2 a pharagraff 118 o Atodlen 1); Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p. 43) (adran 34 a pharagraff 79 o Atodlen 4); Deddf Plant 2004 (p. 31) (adran 53(3)); O.S. 2007/961 (Cy. 85) (erthygl 3 a pharagraff 20 o’r Atodlen); Deddf Plismona a Throsedd 2009 (p. 26) (adran 112(2) a Rhan 13 o Atodlen 8); O.S. 2010/1158 (erthygl 5(1) a pharagraff 37(8) o Atodlen 2, erthygl 5(2) a Rhan 2 o Atodlen 3); Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7) (adran 55(2) a pharagraff 53 o Atodlen 5); O.S. 2016/413 (Cy. 131) (rheoliad 100); O.S. 2022/744 (Cy. 161) (rheoliad 4 a pharagraff 1(2) o Atodlen 2); Deddf Iechyd a Gofal 2022 (p. 31) (adran 1(2) a pharagraff 1 o Atodlen 1, adran 32 a pharagraff 33 o Atodlen 4).

**Diwygio rheoliad 29**

**15.** Yn rheoliad 29 (iawn – digolllediad ariannol), ym mharagraff (1), yn lle “nag £25,000” rhodder “na £50,000”, ac ym mharagraff (2), yn lle “na £25,000” rhodder “na £50,000”.

**Diwygio rheoliad 31**

**16.** Yn rheoliad 31 (adroddiad yr ymchwiliad), yn lle paragraff (3) rhodder—

“(3) Oni bai bod paragraff (4) yn gymwys, rhaid i’r corff GIG Cymru—

(a) darparu copi o adroddiad yr ymchwiliad o fewn yr amserlen a bennir yn rheoliad 26(5) neu (6) i’r person sy’n ceisio iawn o dan y Rhan hon, neu i’w gynrychiolydd cyfreithiol, a

(b) cynnig cyfle i’r person sy’n ceisio iawn o dan y Rhan hon i drafod yr adroddiad ymchwiliad hwnnw gyda’r swyddog cyfrifol neu berson sy’n gweithredu ar ran y swyddog cyfrifol, drwy ddefnyddio dull cyfathrebu uniongyrchol.”

**Diwygio rheoliad 33**

**17.** Yn rheoliad 33(a) (iawn – hysbysu ynghylch penderfyniad)—

(a) yn lle “deuddeng mis” rhodder “120 o ddiwrnodau gwaith”;

(b) yn lle “ddeuddeng mis” rhodder “120 o ddiwrnodau gwaith”.

**Diwygio rheoliad 40**

**18.**—(1) Mae rheoliad 40 (ymateb i ymchwiliad o dan reoliad 39 pan fo corff GIG Cymru o’r farn bod, neu y gall fod, atebolrwydd cymwys) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (3)(b), yn lle “chwe mis” rhodder “120 o ddiwrnodau gwaith”.

(3) Ym mharagraff (4), yn lle “chwe mis” rhodder “120 o ddiwrnodau gwaith”.

(4) Ym mharagraff (5), yn lle “deuddeng mis” rhodder “120 o ddiwrnodau gwaith”.

(5) Ym mharagraff (6), yn lle “ddeuddeng mis” rhodder “120 o ddiwrnodau gwaith”.

**Diwygio rheoliad 44**

**19.** Yn rheoliad 44(1) (iawn – digolllediad ariannol), yn lle “£25,000” rhodder “£50,000”.

**Diwygio rheoliad 46**

**20.** Yn rheoliad 46 (adroddiad yr ymchwiliad), yn lle paragraff (3) rhodder—

"(3) Oni bai bod paragraff (4) yn gymwys, rhaid i'r corff GIG Cymru—

(a) darparu copi o adroddiad yr ymchwiliad o fewn yr amserlen a bennir yn rheoliad 40(5) neu (6) i'r person sy'n ceisio iawn o dan y Rhan hon, neu i'w gynrychiolydd cyfreithiol, a

(b) cynnig cyfle i'r person sy'n ceisio iawn o dan y Rhan hon i drafod yr adroddiad ymchwiliad hwnnw gyda'r swyddog cyfrifol neu berson sy'n gweithredu ar ran y swyddog cyfrifol, drwy ddefnyddio dull cyfathrebu uniongyrchol."

**Diwygio rheoliad 48**

**21.** Mae rheoliad 48(a) (iawn – hysbysu ynghylch penderfyniad) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) yn lle "deuddeng mis" rhodder "120 o ddiwrnodau gwaith";

(b) yn lle "ddeuddeng mis" rhodder "120 o ddiwrnodau gwaith".

**Diwygio rheoliad 50**

**22.**—(1) Mae rheoliad 50 (monitro gweithrediad y trefniadau i ymdrin â phryderon) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl paragraff (a) mewnosoder—

"(aa) pan fo'r pryder yn ymwneud â marwolaeth claf, neu niwed cymedrol neu ddifrifol iddo, a phan fo'r corff cyfrifol yn penderfynu nad oes angen cyngor meddygol annibynnol at ddibenion ymchwilio i'r materion a godir gan y pryder at ddibenion rheoliad 23(1)(d), y rheswm dros y penderfyniad hwnnw;".

(3) Ym mharagraff (b), ar ôl "pob pryder" mewnosoder "gan gynnwys, pan ganfuwyd bod atebolrwydd cymwys yn bodoli, a wnaed cynnig o iawn".

**Diwygio rheoliad 51**

**23.** Ar ôl paragraff (3) o reoliad 51 (yr adroddiad blynyddol) mewnosoder—

"(4) Rhaid i adroddiad blynyddol Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer blwyddyn, a baratoir o

dan baragraff (1), gynnwys copi o bob adroddiad blynyddol, ar gyfer y flwyddyn honno, gan y cyrff cyfrifol a restrir o dan baragraff (2) ac a ddarparwyd iddo o dan baragraff (3).”

**Darpariaeth drosiannol**

**24.** Nid yw’r Rheoliadau hyn yn gymwys i unrhyw bryder a hysbyswyd yn unol â threfniadau a oedd yn eu lle o dan y Prif Reoliadau cyn y dyddiad y daw’r Rheoliadau hyn i rym.

*Enw*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad